

**PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU  
CORFFORAETHOL**

**DYDD MERCHER, 31 IONAWR 2024**

**YN BRESENNOL (Yn y Siambr):** Y Cyngorydd G. Morgan (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

K. Broom, T. Davies, G. John, D. Nicholas,

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

A. Evans, D. Jones

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

Y Cyngorydd D. Price - Arweinydd

Y Cyngorydd A. Lenny - Aelod Cabinet dros Adnoddau

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (Yn y Siambr):**

L. Rees-Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;

G. Jones, Prif Swyddog Digidol

P. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol

H. Morgan, Rheolwr Datblygu Economaidd;

C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;

K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

D. Hall-Jones, Swyddog Cymorth i'r Aelodau;

S. Rees, Cyfieithydd ar y Pryd.

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**

N. Evans, Rheolwr Cymorth Busnes;

M. Runeckles, Swyddog Cymorth i'r Aelodau;

**Chamber - County Hall, Carmarthen. SA31 1JP and remotelyac o bell - 2.00 - 4.06  
yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd Derek Cundy a'r Cyngorydd Jean Lewis. Derbyniwyd ymddiheuriadau hefyd gan Wendy Walters, Prif Weithredwr, Ainsley Williams, Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith a Deina Hockenhull, Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW  
CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR  
AGENDA**

Y Cyngorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
A. Evans	Eitem 4 - Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 i	Personol a rhagfarnol - Mae aelod o'r teulu yn gweithio yn yr adran

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

	2026/27	Gwasanaethau Democrataidd
A. Evans	Eitem 5 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2023/24	Personol a rhagfarnol - Mae aelod o'r teulu yn gweithio yn yr adran Gwasanaethau Democrataidd
K. Broom	Eitem 4 - Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 i 2026/27	Personol – ail gartrefi/cartrefi gwag

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig

### 3. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

### 4. **YMGYNGHORI YNGHYLCH STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2024/25 TAN 2026/27**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Ymgynghoriad ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw Corfforaethol 2024/25 i 2026/27 a oedd yn rhoi golwg gyfredol ar y gyllideb refeniw ar gyfer 2024/25 ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2025/26 a 2026/27. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y setliad dros dro a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr 2023, a oedd y dyddiad hwyraf a roddwyd erioed.

Atgoffwyd Aelodau bod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2024 a bod aelodau'r Pwyllgor wedi mynychu digwyddiadau ymgynghori yn ddiweddar, a oedd yn rhoi cyfle i ddadansoddi a chael eglurhad ynghylch gwahanol agweddau ar y gyllideb.

Amlygodd yr adroddiad nad oedd cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer codiadau pensiwn Athrawon na Diffoddwyr Tân, gan nad oedd wedi cael ei weithio drwy Lywodraeth Cymru a San Steffan. Er y tybir na fydd hyn yn cael effaith ar ein sefyllfa ariannu, ystyriwyd bod hyn yn risg sylweddol hyd nes iddo gael ei gadarnhau'n ffurfiol, gyda gwerth o oddeutu £4 miliwn.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor nad oedd unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i unioni'r diffyg cynhenid yn y gyllideb o ganlyniad i naill ai'r codiad yn nhâl Athrawon (a bennwyd gan Lywodraeth cymru) na dyfarniad cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol 2023 (a bennwyd gan fargeinio cenedlaethol ynghylch tâl) ac mai dyma'r setliad mwyaf heriol ers datganoli.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor y disgwylir i'r setliad terfynol gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar 27 Chwefror 2024, ynghyd â chyllideb Llywodraeth Cymru, sef y diwrnod cyn i'r cyngor llawn gyfarfod i gytuno ar y gyllideb derfynol.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth gyllidebol fanwl ganlynol a oedd wedi'i hatodi i'r Strategaeth ac a oedd yn berthnasol i Graffu Corfforaethol a Pherfformiad:-

**Atodiad A** – Strategaeth Cyllideb Gorfforaethol 2024/25 i 2026/27

**Atodiad A(i)** – Crynodeb effeithlonrwydd ar gyfer y Prif Weithredwr ac adrannau'r Gwasanaethau Corfforaethol

**Atodiad A(ii)** – Crynodeb o'r Pwysau Twf ar gyfer y Prif Weithredwr ac adrannau'r Gwasanaethau Corfforaethol

**Atodiad B** – Adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer y Prif Weithredwr ac adrannau'r Gwasanaethau Corfforaethol

**Atodiad C** – Crynhoad Taliadau ar gyfer y Prif Weithredwr ac adrannau'r Gwasanaethau Corfforaethol

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd wrth ystyried yr adroddiad:

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch pam y dewiswyd y senario amgen gan yr Awdurdod ar gyfer y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Adnoddau mai dyma'r opsiwn mwyaf realistig o'r ddau opsiwn a gynigir, oherwydd ansicrwydd etholiadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghyd â Phrif Weinidog newydd yng Nghymru.
- Mewn ymateb i ymholiad, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr Awdurdod wedi bod yn rhagweithiol wrth hysbysu perchnogion eiddo o'r cynnydd mewn premiymau i ail gartrefi a thai gwag. Cymeradwywyd y cynnydd hwn gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2023 a chynaliadwy adolygiad o'r polisi yn ystod 2024. Bydd y Cabinet yn ystyried cynnydd pellach posibl mewn premiymau. Bydd yr incwm a dderbynnir yn cael ei gynnwys yng nghyllideb y flwyddyn nesaf, gydag adroddiad i'r Cabinet ystyried sylfaen y dreth yn ystod tymor yr hydref.
- Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y benthyciad i'r Scarlets wedi aeddfedu ac mae cyfarfod rhwng pleidiau wedi ei drefnu yn ystod mis Chwefror i weithio i gyrraedd canlyniad derbyniol.
- Mewn ymateb i ymholiad, rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod rhagolygon y gyllideb addysg yn cael eu monitro drwy gydol y flwyddyn ac oherwydd pwysau gwariant newydd, dyrannwyd swm dangosol o £15.4 miliwn ar draws adrannau, fel y nodwyd yn atodiad B yr adroddiad. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai'r maes lle mae'r pwysau mwyaf arwyddocaol oedd yn y gwasanaethau plant.
- Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod cynnydd o 4% ar gyfer cyflogau staff yn dybiaeth realistig, o ystyried bod cyfradd chwyddiant yn gostwng.
- Nodwyd gan y Pwyllgor, oherwydd diffyg gwybodaeth a ddarparwyd gan ysgolion ynghylch cronfeydd wrth gefn unigol, na ellid rhagdybio rhagolygon y dyfodol.
- Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod swyddogion Marchnata a'r Cyfryngau yn ystyried darparu adborth ymgynghori ynghylch y gyllideb i'r cyhoedd.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch cynnydd yn ffioedd Llesiant Delta, cadarnhaodd swyddogion fod Cytundeb Lefel Gwasanaeth bellach yn berthnasol i fwy o sefydliadau ac awdurdodau eraill gan gynnwys Sir Gaerfyrddin. Bu cynnydd yn nifer y staff, gan godi o 40 i 100, a newidiadau i dechnoleg.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

### **4.1 dderbyn yr Ymgynghoriad ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 i 2026/27**

### **4.2 bod y Crynhoad Taliadau a nodir yn Atodiad C yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.**

## **5. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24**

Cyflwynodd yr Aelod o'r Cabinet dros Adnoddau Adroddiad Monitro Cyllideb Gorfforaethol yr Awdurdod ac adroddiadau adrannol y Prif Weithredwr a'r Gwasanaethau Corfforaethol fel yr oeddent ar 31 Hydref 2023 mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023/24.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a'r ymholiadau a godwyd ynghylch yr adroddiad:

- Mewn ymateb i ymholiad ar Brosiectau Strategol Trawsnewid Trefi, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod swyddogion yn monitro caffael eiddo, ac yn ystod yr wythnosau nesaf, pe bai angen, y byddai arian yn cael ei symud, oherwydd hyblygrwydd a roddwyd gan y Cabinet.

### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## **6. RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNYDD (CRONFA'R CYNGOR) 2024/25 - 2028/29**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau'r rhaglen gyfalaf 5 mlynedd a oedd yn rhoi golwg gychwynnol ar y Rhaglen Gyfalaf 5 mlynedd rhwng 2024/25 a 2028/29. Roedd yr adroddiad yn sail i'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb gyda'r aelodau a phartion perthnasol eraill a byddai unrhyw adborth, ynghyd â'r setliad terfynol, yn llywio'r adroddiad terfynol ynghylch y gyllideb a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Cyngor ym mis Chwefror 2024.

Y gwariant gros arfaethedig ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/25 yw £86.680m, a'r bwriad oedd i'r cyngor sir gyllido £50.124m o'i adnoddau ei hun drwy ddefnyddio benthyciadau, arian wrth gefn, ariannu drwy refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf a grant cyfalaf cyffredinol, a bod y £36.556m o gyllid oedd yn weddill yn dod o ffynonellau allanol.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Er bod y rhaglen gyfalaf newydd yn cael ei hariannu'n llawn dros y pum mlynedd, cynigiwyd tanymrwymo peth o'r cyllid oedd ar gael i roi hyblygrwydd ar draws y rhaglen i dalu am unrhyw gostau ychwanegol annisgwyl ar brosiectau cymeradwy. Nid yw'n cynnwys unrhyw gyllid sy'n ymwneud â phrosiectau parhaus yn y flwyddyn gyfredol a allai gael ei drosglwyddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i raglen 2024/25.

Nod y Rhaglen Gyfalaf yw cyflawni nifer o brosiectau allweddol a fydd yn creu swyddi ac yn gwella ansawdd bywyd pobl Sir Gaerfyrddin. Mae datgarboneiddio yn flaenoriaeth i'r Awdurdod a bydd briffiau dylunio ar gyfer prosiectau newydd yn cynnwys pwyslais ar effeithlonrwydd carbon.

Canmolodd y Pwyllgor swyddogion am Raglen Buddsoddi Cyfalaf clir ac uchelgeisiol.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd wrth ystyried yr adroddiad:

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch pa mor gyson oedd yr arian gan Lywodraeth Cymru, roedd swyddogion yn hyderus y byddai'r ffigurau a ddarparwyd yn aros yn gyson, gan eu bod yn seiliedig ar ffigurau poblogaeth.
- Nodwyd y byddai angen ystyried lliniaru llifogydd yng nghyllideb blynnyddoedd 3 a 4.

## **PENDERFYNWYD cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd 2024/25 – 2028/29.**

### **7. POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH 2024-25**

Cyflwynwyd Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys arfaethedig 2024-25 gan yr Aelod Cabinet dros Adnoddau. Fel rhan o ofynion Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gynnal Polisi Rheoli'r Trysorlys yn manylu ar bolisiâu ac amcanion ei weithgareddau rheoli'r trysorlys, a chymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol yr oedd yn gysylltiedig â hi. Hefyd, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo ei Ddangosyddion Darbodaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25 a'r atodiadau cysylltiedig.**

### **8. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU**

Cafodd y Pwyllgor yr adroddiad nad oedd wedi'i gyflwyno mewn perthynas â chofnodion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd a nododd yr eglurhad.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

**PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.**

**9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y gallai fod angen dwyn ymlaen dyddiad y cyfarfod nesaf ar 1 Mawrth 2024.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.**

**10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWDYD AR 12 RHAGFYR 2023**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2023 yn gofnod cywir.**

---

**CHAIR**

---

**DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf